EIS(5)-07-19(P3)

Eleanor Marks
Cyfarwyddwr Ofcom
Pwynt Caspian
2 Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ

15 Chwefror 2019

Annwyl Eleanor,

Ymgynghoriad: Dyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz

Ysgrifennaf ynghylch fy llythyr blaenorol dyddiedig 24 Hydref 2018 a'ch ymateb dyddiedig 12 Rhagfyr 2018 (mae'r ddau ynghlwm) ac ymgynghoriad cyfredol Ofcom ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz.

Nodaf o'r ymgynghoriad cyfredol fod y cynnig diwygiedig ar gyfer rhwymedigaeth o ran darpariaeth ddaearyddol Cymru yn parhau i fod yn 83 y cant, fel yr oedd yng nghynnig mis Mawrth. Mewn ymateb i alwadau i gynyddu'r rhwymedigaethau darpariaeth hyn yng Nghymru a'r Alban, mae Ofcom yn nodi yn y ddogfen ymgynghori bresennol: "Such an approach would significantly raise the overall cost of the coverage obligations to operators, increasing the risk that the coverage obligations go unsold".

Fodd bynnag, yn dilyn **ein gwaith** yn yr maes hwn, mae Pwyllgor o'r farn o hyd nad yw'r cynigion presennol ar gyfer rhwymedigaeth darpariaeth ddaearyddol Cymru yn ddigon uchelgeisiol. Mae mantol y dystiolaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori - sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Ymgynghorol Cymru Ofcom, yr NFU a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) - yn cefnogi rhwymedigaeth darpariaeth uwch. Yn ôl y CLA, mae'r targedau gwreiddiol ar gyfer Cymru (a'r Alban) yn “insufficient and would reinforce and entrench economic divide between the nations”. Dylid nodi bod gan EE ddarpariaeth ddaearyddol o 83 y cant eisoes ar gyfer gwasanaethau 4G yng Nghymru, sy'n dangos cyn lleied o her yw'r targed arfaethedig o 83 y cant yn y cynigion presennol.

Mae'r cynnig i Gymru yn golygu cynnydd a fyddai’n llai na'r hyn a gynigir yn yr Alban (7 pwynt canran o'i gymharu â 12), a byddai Cymru ar ei hôl hi o hyd o ran darpariaeth ddaearyddol o'i chymharu â Gogledd Iwerddon a Lloegr. Rydym yn galw ar i Ofcom gynyddu'r rhwymedigaeth ddaearyddol ar gyfer Cymru a sicrhau darpariaeth decach ledled y DU.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd wybod beth yw amcangyfrifon Ofcom ar gyfer a) faint o adeiladau ychwanegol a fyddai'n gallu derbyn gwasanaethau 4G yng Nghymru, a b) faint o orsafoedd ychwanegol a fyddai'n cael eu hadeiladu yng Nghymru o dan ei gynigion cyfredol.

Yn gywir,



Russell George
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau